

Hafan
Pori
Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd
Chwiliad testun rhydd

English

PDF Argraffu Cyfeirnod

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

ROBERTS, JOHN ASKEW (1826 - 1884), hynafiaethydd, awdur, a newyddiadurwr

Enw: John Askew Roberts
Dyddiad geni: 1826
Dyddiad marw: 1884
Rhiant: Samuel Roberts
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hynafiaethydd, awdur, a newyddiadurwr
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 27 Mawrth 1826 yng Nghroesoswallt, mab Samuel Roberts, llyfrwerthwr. Yn 1848 yr oedd yn ysgrifennu i *Oswald's Well*, cylchgrawn a ddilynwyd yn 1849 gan yr *Oswestry Advertiser*, a gychwynwyd gan Askew Roberts yn fisolyn, ac wedyn yn wythnosolyn, ac y bu'r cychwynnydd mewn cysylltiad ag ef am 20 mlynedd. Wedi iddo werthu hawlfraint yr *Advertiser* ac ymneilltuo o'r swydd o olygydd, parhaodd Roberts i gyfrannu i'w golofnau o bryd i bryd hyd 1871, pryd y dechreuodd ofalu am y golofn hynafiaethau, a elwid Bye-Gones, a ddaeth i'w chysylltu mwyach ag enw Roberts, ac a ymddangosodd am gyfnod hir, gan gael ei hailgyhoeddi yn rhannau chwarterol. Un o'r ysgrifenywyr mwyaf cyson i Bye-Gones oedd **W. W. E. Wynne**, Peniarth, Sir Feirionnydd, ysgolhaig a hynafiaethydd y cydweithiodd Roberts ag ef i ddwyn allan argraffiad 1878 o lyfr *Syr John Wynn*, Gwydir, sef *The history of the Gwydir family*. Cyhoeddodd Roberts hefyd *Contributions to Oswestry History* 1881; *Wynnstay and the Wynns*, 1876; a gwaith a gafodd gylchrediad eang, sef *The Gossiping Guide to Wales*. Gydag Edward Woodall golygodd *The Pictorial Itinerary, an Illustrated Guide to the Railways and Coach-Roads of North Wales* (Oswestry, 1882). Ysgrifennai i gyhoeddiadau'r Shropshire Archaeological Society a'r Powys-land Club. Heblaw'r *Advertiser* cychwynnodd, 1860, *The Merionethshire Standard*, a ymgorfforwyd yn y *Cambrian News* yn ddiweddarach. Bu farw 10 Rhagfyr 1884, yn 58 oed.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1884, 146, 151, 184, 267, a 1885, 267

Archaeologia Cambrensis, 1885, 75-6

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733352

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Davies, W. Ll., (1953). ROBERTS, JOHN ASKEW (1826 - 1884), hynafiaethydd, awdur, a newyddiadurwr. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ROBE-ASK-1826>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddi
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government